# CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Y Cynghorydd J.M. Norman (Is-gadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, R. Crowley, O. Griffiths ac L.O. Rowlands

Cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol: R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) ac H. Smith (Barnardos).

## 595 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## 596 PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG –

CYTUNWYD – Dylid gohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 597 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd A.M. Collins.

## 598 COFNODION –

CYTUNWYD – Dylid cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

## 599 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 600 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG 2020/21 (GGM) –

Cyflwynodd Cynrychiolydd Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) yr adroddiad a gynghorodd y Pwyllgor ar waith GGM drwy gydol y flwyddyn yn

2020/21. Roedd yn ofyniad statudol ar GGM i hysbysu'r Awdurdod Lleol o'u cynnydd o ganlyniad i gyllid a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol a'r adroddiad wrth ddarparu adolygiad o'r flwyddyn flaenorol. Gwnaeth hefyd helpu GGM i sicrhau bod eu nodau a'u canlyniadau’n parhau i ganolbwyntio ar yr amcanion a nodwyd. statutory requirement of GVS to inform the Local Authority of its progress as a result of funding received by the Local Authority and the report, in providing a review of the preceding year, also helped GVS to ensure that their aims and outcomes remained focused on their stated objectives.

Nododd y Cynrychiolydd weithgareddau GGM a chanlyniadau eu gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 a thynnodd sylw at eu perfformiad a'u cyflawniadau mewn nifer o feysydd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig gwybodaeth am gynlluniau GGM yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y ffaith bod angen i'r rhain fod yn ariannol gadarn ac yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy tra'n parhau'n hyblyg er mwyn bodloni'r amgylchedd allanol sy'n newid yn barhaus.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mynegodd Cynrychiolydd Barnardos y byddai gan y sefydliad ddiddordeb mewn defnyddio CF61 yn Llanilltud Fawr i hwyluso eu cynllun cwnsela newydd mewn ysgolion gan fod angen canolfan yng Ngorllewin y Fro, ac atebodd Cynrychiolydd GGM y byddai GGM yn hapus i ddarparu ar gyfer hyn ac y byddai'r mater yn cael ei godi yn dilyn y cyfarfod.

Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan y Cynghorydd Cave, dywedodd Cynrychiolydd GGM y canlynol:

- Y peth pwysicaf a ddysgodd GGM o ganlyniad i'r pandemig oedd pa mor barod mae’r cyhoedd i gefnogi eu cymdogion a'u cymunedau, ond roedd y sefydliad bellach yn wynebu her enfawr o ran sut i gynnal y momentwm a'r diddordeb hwn. Roedd llawer o’r gwirfoddolwyr newydd ar ddechrau'r pandemig wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu ddim yn gweithio, ond gyda gwirfoddolwyr yn dychwelyd i'r gwaith a llawer o’r cyfleoedd ar gael yn ystod y dydd, ar ddyddiau'r wythnos, roedd galw mawr mewn sectorau fel gofal cartref am gymorth gwirfoddol ychwanegol.
- Roedd y datblygiadau diweddaraf o ran COVID-19 hefyd yn her, gyda’r angen i ystyried materion yn ymwneud â diogelu ac asesu risg pe bai gwirfoddolwyr yn mynd i mewn i gartrefi defnyddwyr gwasanaeth.
- Roedd yr Awdurdod Lleol wedi derbyn cyllid i gynnal ymchwil ar y lleihad yn effaith gwirfoddolwyr yn dilyn y nifer fawr a gyfrannodd yn y lle cyntaf oherwydd COVID, a gellid cyflwyno’r ymchwil honno i'r Pwyllgor er gwybodaeth iddynt mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- Ar ôl cysylltu â Rheolwr Gyfarwyddwr yr Awdurdod Lleol, roedd y Cynrychiolydd wedi sicrhau bod arwyddion wedi'u gosod ar gylchfannau yn y Fro yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn mynegi diolch i wirfoddolwyr ochr yn ochr â gweithwyr allweddol. Gwnaeth GGM gymaint â phosibl hefyd i ddangos gwerthfawrogiad a diolch i wirfoddolwyr yn ystod yr Wythnos Gwirfoddolwyr.
- Roedd GGM a'r Cyngor wedi cynnal noson wobrwyo i gydnabod gwaith gwirfoddolwyr ym Mro Morgannwg yn benodol yn flaenorol, ond daeth i ben oherwydd goblygiadau ariannol. Roedd Cynrychiolydd GGM wedi bod mewn cysylltiad â Swyddogion y Cyngor i drafod a fyddai'n bosibl fel rhan o

ddyfarniadau staff i gydnabod hefyd y rhai a wnaeth waith gwirfoddol yn y gobaith y byddai hyn yn annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli.

- Roedd llawer o'r gwirfoddolwyr a gynigiodd helpu i ddechrau yn ystod y pandemig wedi creu grwpiau anffurfiol, ond nid oedd y mwyafrif am fabwysiadu strwythur ffurfiol er bod cyllid posibl ar gael i hwyluso hyn.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Cave, lle camodd unigolion ymlaen i ddarparu cymorth, fel y gwnaeth cynifer o ganlyniad i'r pandemig, ei bod hi'n bwysig diolch i'r gwirfoddolwyr hynny a dangos gwerthfawrogiad er mwyn egluro gwerth eu gwaith ac annog mwy o bobl, gobeithio, i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli.  Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunodd yr Aelodau ag awgrym y Cynghorydd Cave y dylid sefydlu noson wobrwyo gwirfoddolwyr er mwyn i wirfoddolwyr allu cael diolch a chydnabyddiaeth ffurfiol am eu hymdrechion.

Gydag Aelodau wedi ystyried yr adroddiad yn llawn,

CYTUNWYD –

(1) Dylid nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg 2020/21.

(2) Dylid anfon sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r awgrym o sefydlu noson wobrwyo i wirfoddolwyr er mwyn cydnabod ac amlygu gwaith gwirfoddol ym Mro Morgannwg yn ffurfiol i'r Cabinet i'w hystyried.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o farn y Pwyllgor ynghylch pwysigrwydd dweud diolch yn ffurfiol i wirfoddolwyr a chydnabod eu gwaith caled, a bod yr awgrym o sefydlu noson wobrwyo yn cael ei gynnig i'w ystyried.